Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/03

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Darren Millar AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

23/03/2015

Annwyl Darren,

**Craffu ar Gyfrifon ar gyfer 2013-14**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20/03/2015 ynghyd a'ch gwahoddiad i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad sy'n berthnasol i Gomisiynydd y Gymraeg. Derbyniwyd yr adroddiad dan embargo, y diwrnod cyn ei gyhoeddi, ar 06/03/2015.

Yn gyntaf hoffwn godi eich sylw ar gamgymeriad ffeithiol yn yr adroddiad ar dudalen 9 paragraff 10; lle nodir bod gan Gomisiynydd y Gymraeg gyllideb o £4.3m. Yn y paragraff cyntaf o'r cyfrifon "Crynodeb ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol 2013-14" datgelir mai £4.1m oedd y cyllid a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14. Roedd y gwariant ar gyfer y flwyddyn hon yn £4.3m fel y nodir yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Er mwyn osgoi camgymeriadau tebyg yn y dyfodol a fyddai'n bosib dosbarthu fersiwn drafft o'r adroddiad er mwyn gwirio a chywiro unrhyw faterion ffeithiol, cyn cyhoeddi'r adroddiad?

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

I ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad, mae pedwar ohonynt yn berthnasol i Gomisiynydd y Gymraeg.

**Argymhelliad 3: gweithio'n effeithlon a chydweithredu**

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Comisiynwyr i drafod materion perthnasol. Hefyd mae fy swyddogion yn mynychu cyfarfodydd chwarterol o grŵp y "Cyfarwyddwyr Cyllid ac Adnoddau CNLC", a'r is-grwpiau Cyllid, Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae'r fforymau hyn yn ddefnyddiol rannu gwybodaeth, arfer da a chydweithredu. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol mae'r swyddogion yn defnyddio cysylltiadau yn y rhwydweithiau hyn i hwyluso cydweithredu a rhannu gwybodaeth a syniadau.

**Argymhelliad 5: cyfrifoldebau sydd wedi eu dirprwyo**

Yn unol ag adrannau 12 a 13 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, penodwyd dirprwy Gomisiynydd. Mae'r dirprwy Gomisiynydd yn gweithredu swyddogaethau'r Comisiynydd yn ystod cyfnod gwyliau, salwch neu unrhyw adeg arall ar gais y Comisiynydd, fel y nodir yn natganiad llywodraethiant Adroddiad Blynyddol 2013-14.

Hefyd nodir yn yr Adroddiad Blynyddol bod y Tîm Rheoli, sy'n "cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys yr holl gyfarwyddwyr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisïau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Mae cylch gorchwyl y Tîm Rheoli wedi ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd."

**Argymhelliad 8: lefel a defnydd y gronfa wrth gefn**

Cafod datganiad ynglŷn â lefel y gronfa wrth gefn, defnydd o'r gronfa a sut y daethpwyd i'r casgliad hwn ei nodi yn Adroddiad Blynyddol 2013-14 ac yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2015-16. Rwyf wedi derbyn a gweithredu'r argymhelliad yn barod, a bydd y drefn yma yn parhau.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

**Argymhelliad 9: cyflwyno gwybodaeth sy'n hawdd i'w ddeall**

Rwyf yn ymwybodol o adroddiad Prif Ysgrifennydd y Trysorlys "*Simplifying and streamlining statutory annual report and accounts*" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, i'w fabwysiadu ar gyfer adroddiadau blynyddol a chyfrifon 2015-16. Fel y nodir yng nghrynodeb gweithredol yr adroddiad y nod yw "cwrdd ag anghenion y defnyddwyr yn well" drwy "integreiddio'r tair elfen o berfformiad, atebolrwydd a'r datganiadau ariannol".

Mae fy swyddogion wedi bod yn ystyried goblygiadau'r adroddiad, wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r tîm o Swyddfa Archwilio Cymru, rhannu syniadau gyda Chomisiynwyr eraill, gan ddod i gasgliadau ynglŷn â sut bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei newid a'i ddiwygio i ymateb i ofynion yr adroddiad. Y bwriad yw mabwysiadu'r argymhellion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15, sef blwyddyn yn gynnar, a datblygu hyn yn bellach ar gyfer 2015-16.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi:

**Michael Kay**
Clerc